# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 16 Mai 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Prif Weinidog gyfarfod â Phrif Weinidog y DU, ac a wnaiff roi manylion y cyfarfod? (WAQ51702)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Cefais gyfarfod diwethaf gyda Phrif Weinidog y DU yn ystod ei ymweliad ag Abertawe ddydd Gwener 25 Ebrill.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog gyfarfod â rheolwyr Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, a beth oedd canlyniad y cyfarfod? (WAQ51694)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Cefais y cyfarfod diwethaf â rheolwyr Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd pan oeddwn yn bresennol yn nigwyddiad pen-blwydd cyntaf y Gwasanaeth Awyr Oddi Mewn i Gymru ar 9 Mai. Byddaf yn cyfarfod yn ffurfiol â rheolwyr y Maes Awyr yn fuan.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion nifer y gwasanaethau bysiau a dynnwyd yn ôl ym mhob awdurdod lleol ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ51695)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni ddelir y wybodaeth hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae manylion AM gofrestriadau bws ac achosion o dynnu yn ôl ar gael gan y Comisiynydd Traffig, Welsh Traffic Area Office, Hillcrest House, 386 Hareshill Lane, Leeds, LS9 6NF

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu rhagor o deithiau hedfan uniongyrchol i/o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd? (WAQ51703)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Sefydlwyd Cronfa Datblygu Llwybrau Awyr Cymru i gynorthwyo Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i ddenu llwybrau newydd. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi llwybrau i Baris a Barcelona ac yn ôl. Agorodd y Gronfa ym Mehefin 2006 a chafodd ei chau ar 31 Mai 2007. Nid ydym wedi parhau â'r cynllun o dan brotocol y Gronfa Datblygu Llwybrau Awyr a ddiwygiwyd oherwydd bod y canllawiau newydd yn cynnwys cyfyngiadau sy'n gwneud y cynllun yn annymunol i feysydd awyr a gweithredwyr oherwydd y gwaith anghymesur sydd ei angen i gael cyfraniad o 30%.

Mae fy swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â'r Maes Awyr a'r cwmnïau awyr o ran targedu llwybrau awyr allweddol a fydd yn creu buddiannau economaidd ychwanegol i Gymru drwy fewnfuddsoddiad a thwristiaeth. Byddaf yn cyfarfod yn ffurfiol â rheolwyr y Maes Awyr yn fuan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o blant sydd wedi gadael yr ysgol yng Nghymru heb unrhyw gymwysterau a gydnabyddir yn ffurfiol ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ51735)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae nifer y plant a'r ganran o blant 15 oed sy'n gadael addysg llawn amser yng Nghymru heb gymhwyster cydnabyddedig yn

lleihau'n raddol. Ceir y wybodaeth lawn a adroddir o ran nifer y disgyblion a chanran y disgyblion 15 oed yn Natganiad Ystadegol Cyntaf, SDR 204/2007.

http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools-2007/hdw200712202/?lang=cy

Mae'r ffigyrau hyn yn dangos bod y system addysg yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae cyflawni o leiaf un cymhwyster yn hanfodol er mwyn rhoi cyfle o fywyd gwell i bobl ifanc, swydd sy'n talu'n well a mwy o ddiogelwch ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn benderfynol o hyd - fel y nodir yn Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith - na ddylai unrhyw ddisgybl adael y system addysg heb gymhwyster cymeradwy erbyn 2010.

Bwriad y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yw llywio'r broses o weithredu Llwybrau Dysgu yng Nghymru, gan nodi'r dull gweithredu arbennig a ddefnyddir ar gyfer datblygu darpariaeth 14-19. Bydd yn sicrhau y gall yr holl ddysgwyr arfer eu hawl i chwe elfen allweddol fframwaith Llwybrau Dysgu.

Mae Rhwydweithiau 14-19, sy'n seiliedig ar bob ardal awdurdod lleol ac sy'n cynnwys partneriaid o bob sector gan gynnwys ysgolion, yn gweithio'n galed i weithredu Llwybrau Dysgu 14-19. Yn ystod 2008-09 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi clustnodi £32.5m i ardaloedd Rhwydwaith 14-19 er mwyn parhau i ddatblygu Llwybrau Dysgu gan gynnwys ystod o weithgareddau cydweithredol a anelir at leihau nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau.

Bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn rhoi'r cyfle i bob dysgwr gymryd opsiynau galwedigaethol ynghyd ag opsiynau academaidd, wrth ddewis o restr eang o opsiynau.

Mae rôl Hyfforddwr Dysgu yn ddatblygiad allweddol hefyd o ran helpu i gadw pobl ifanc i ddysgu. Mae rôl Hyfforddwr Dysgu yn allweddol er mwyn cefnogi'r dysgwr yn agweddau dysgu'r Llwybr Dysgu cyfan gan ganolbwyntio ar wneud y mwyaf o allu'r person ifanc a'i ysgogi i aros mewn addysg i ennill cymwysterau.

Mae angen gwell cymorth personol ar lawer o bobl ifanc hefyd i'w helpu i oresgyn rhwystrau i ddysgu, aros mewn addysg a manteisio ar gyfleoedd i ennill cymwysterau. Mae cael gafael ar gymorth personol yn elfen allweddol arall o Lwybrau Dysgu a gaiff ei chyflwyno i bob person ifanc yng Nghymru.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru sy’n cael swydd dysgu yng Nghymru cyn pen a) 12 mis, b) 24 mis, ac c) 36 mis ar ôl graddio? (WAQ51736)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru sy’n cael swydd y tu allan i Gymru cyn pen a) 12 mis, b) 24 mis, ac c) 36 mis ar ôl graddio? (WAQ51737)

**Jane Hutt:** Caiff gwybodaeth am weithgaredd addysgu graddedigion Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon o Sefydliadau Addysg Uwch y DU tua 6 mis ar ôl graddio ei chasglu gan arolwg Cyrchfan Pobl sy'n Gadael Addysg Uwch yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Nid yw'r arolwg dilynol a gynhelir dair blynedd a hanner ar ôl graddio yn cynnwys gwybodaeth am weithgaredd addysgu. Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am weithgaredd addysgu ar gyfer y tair blynedd academaidd ddiwethaf.
**Gweithgaredd addysgu a lleoliad myfyrwyr sy'n cwblhau cyrsiau HCA yng Nghymru**

| | **2003/04** | **2004/05** | **2005/06** |
|---|---|---|---|
| **Canran y myfyrwyr sy'n cwblhau HCA, gyda chyrchfan hysbys, mewn swydd addysgu:** | | | |
| **Yng Nghymru** | 52% | 60% | 57% |
| **Y tu allan i Gymru** | 28% | 27% | 27% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfradd ymateb i'r arolwg ar gyfer myfyrwyr sy'n cwblhau HCA** | 76% | 74% | 80% |
| **Nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau HCA (a)** | 2,065 | 2,045 | 2,030 |

**Ffynhonnell:** Cofnod Myfyrwyr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a Chyrchfan Pobl sy'n Gadael Addysg Uwch
(a) Talgrynwyd i'r 5 agosaf

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o athrawon gydag arbenigedd iaith mewn Tsieinëeg Mandarin a gymhwysodd yng Nghymru yn y cyfnod 12 mis diwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer? (WAQ51740)

**Jane Hutt:** Yn ôl Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, nid oedd unrhyw fyfyrwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon cymwysedig yn 2006/07 y cofnodwyd bod eu cwrs yn cynnwys arbenigedd iaith mewn Tsieinëeg Mandarin.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o nyrsys sydd newydd gymhwyso yng Nghymru sy'n cael swydd nyrsio yn GIG Cymru cyn pen a) 12 mis, b) 24 mis, ac c) 36 mis ar ôl graddio? (WAQ51745)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o nyrsys sydd newydd gymhwyso yng Nghymru sy'n cael swydd nyrsio y tu allan i Gymru cyn pen a) 12 mis, b) 24 mis, ac c) 36 mis ar ôl graddio? (WAQ51746)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid yw'r wybodaeth benodol hon ar gael yn ganolog.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion nifer yr achosion o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty ym mhob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ51751)

**Edwina Hart:** Ers cychwyn y cynlluniau arolygu gorfodol yn 2001, cyhoeddwyd adroddiadau Cymru Gyfan ac adroddiadau Ymddiriedolaeth ar wefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau am nifer y practisau deintyddol GIG yn Nhor-faen? (WAQ51771)

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o bractisau GIG yn Nhor-faen sy'n derbyn cleifion newydd ar hyn o bryd? (WAQ51772)

**Edwina Hart:** Rwy'n deall bod 15 o bractisau deintyddol yn Nhor-faen sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG. Ar hyn o bryd mae tri o'r practisau hyn yn derbyn cleifion y GIG newydd.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau am nifer y practisau deintyddol GIG yn sir Fynwy? (WAQ51773)

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint o bractisau GIG yn sir Fynwy sy'n derbyn cleifion newydd ar hyn o bryd? (WAQ51774)

**Edwina Hart:** Rwy'n deall bod 18 o bractisau deintyddol yn Sir Fynwy sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG. Ar hyn o bryd mae tri o'r practisau hyn yn derbyn cleifion y GIG newydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Changhellor y Trysorlys ynghylch dileu'r gyfradd treth incwm 10c a goblygiadau hynny ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? (WAQ51732)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Ni chefais unrhyw drafodaethau. Cyfrifoldeb Canghellor y Trysorlys yw'r system drethiant, fel mater a gedwir yn ôl. Rydym wedi mynegi ein pryder am effeithiau diddymu'r gyfradd dreth incwm 10c ar deuluoedd yng Nghymru sydd ar incwm isel a chroesawn gyhoeddiad diweddar y Canghellor y bydd yn cynyddu lwfans treth person unigol £600 i £6035 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.